| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 78 – Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 |
| | **Y Cychod Gwyn, Dic Goodman** |

**Heddiw roedd dau o gychod**
**A hwyliau gwyn o blu,**
**Yn llithro dros yr harbwr,**
**Fel llongau'r dyddiau fu.**

**Symudai'r ddau yn ddistaw,**
**A'u hwyliau'n llawn o wynt,**
**Yn lluniaidd ac urddasol**
**Fel llongau Rhufain gynt.**

**Ac yna, yn ddirybudd,**
**Bu cyffro mawr a stŵr,**
**A'r cychod plu yn codi**
**Yn gynnwrf gwyn o'r dŵr.**

**A thynnu cwrs a wnaethant**
**Yn union am y tir;**
**Yn bedair o adenydd**
**A dau o yddfau hir.**